

Cyngor Sir Fynwy

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Sir Fynwy 2018-2033

ARCHWILIAD

Sesiwn Gwrandawriad Pwyntiau Gweithredu 4 – Seilwaith Tai a Chymunedol

Dydd Mawrth 15^{fed} Medi 2026

Cyf.	Pwynt Gweithredu	Dyddiad Cyflawni	Ymateb y Cyngor
AP4/1	Y Cyngor i weithredu'r diwygiadau a nodir yn ED29 'Atodlen y Newidiadau Arfaethedig CDLIN Adneuo (Awst 2026)' oni bai eu bod wedi'u diwygio fel arall gan Bwyntiau Gweithredu penodol		
AP4/2	Y Cyngor i adolygu geiriad paragraff 21.3.8 y CDLIN mewn perthynas â defnydd amlswyddogaethol	25.09.2026	Mae'r Cyngor wedi adolygu geiriad paragraff 21.3.8 y CDLIN ac wedi cynnig y diwygiadau canlynol i fynd i'r afael ag AP4/2. Amnewid brawddeg olaf paragraff 21.3.8 sy'n darllen '<i>Ni ddylid cynnwys cyfleusterau hamdden o fewn ardaloedd SDCau.</i>' Gyda: <i>'Ni ddylid cynnwys defnyddiau mannau agored ffurfiol, fel caeau chwaraeon ac ardaloedd chwarae wedi'u cyfarparu o fewn ardaloedd SDCau. Cefnogir mannau hamdden anffurfiol, megis mannau gwyrdd cymunedol a defnyddiau seilwaith gwyrdd cydnaws eraill, lle gellir eu hintegreiddio â nodweddion SuDS heb beryglu</i>

			<i>eu swyddogaeth draenio, eu gofynion cynnal a chadw na diogelwch y cyhoedd.'</i> Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.
AP4/3	Y Cyngor i ystyried yr angen i ddiffinio 'tir cyhoeddus' a 'thir preifat', a hefyd o bosib cynnwys hyn yng Ngeirfa termau'r CDLIN.	25.09.2026	Er mwyn ychwanegu mwy o eglurder ar ymagwedd y Cyngor at ddynodi Ardaloedd o Bwysigrwydd Amwynder, ystyrir bod yn briodol cynnwys cyfeiriad at 'dir preifat nad yw'n hygyrch i'r cyhoedd' yn y gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn ail frawddeg paragraff 21.5.2 y CDLIN i ddarllen: <i>'Mae'r archwiliad yn cynnwys asesiad o Fannau Hamdden Ffurfiol ac Anffurfiol (mae'r eithriadau yn cynnwys tir preifat nad yw'n hygyrch i'r cyhoedd, cyrsiau golff, cyrff dŵr hamdden, chwaraeon dan do, canolfannau hamdden neu feysydd parcio sy'n gysylltiedig â defnyddiau hamdden), Ardaloedd Chwarae Plant wedi'u Cyfarparu ynghyd â Mannau Amwynder Agored.'</i> Nid yw'r Cyngor o'r farn ei bod yn angenrheidiol cynnwys diffiniad o dir cyhoeddus a thir preifat yng Ngeirfa termau'r CDLIN. Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.